

PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017

PRESENNOL: Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorwyr G.O. Jones, Robert Ll. Jones.

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned

Mr. Gordon Warren.

Aelod Annibynnol

Dr. Hayden Edwards.

WRTH LAW: Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,
Swyddog Pwyllgor (MEH)

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Neb

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd R. Meirion Jones.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 CAIS I FOD YN AELOD O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y broses ddethol statudol ar gyfer penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau. Roedd drafft o hysbyseb ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1 ac roedd pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y Côd Ymddygiad, Rhestr Lwfansau a'r ffurflen gais ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Gwnaed y newidiadau isod i eiriad yr hysbyseb gan y Panel :-

- y bydd Aelod Annibynnol yn cael ei benodi am gyfnod a fydd o leiaf 4 blynedd a hyd at 8 mlynedd;
- bod cyfeiriad e-bost ac enw cyswllt yn cael eu cynnwys yn y pecyn dogfennau;
- bod enw'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei gynnwys yn y fersiwn Saesneg ar dudalen 6 y dogfennau.

Rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fanylion ynghylch costau hysbysebu'r swydd wag yn y papurau newydd lleol. Penderfynodd y Panel, er mwyn osgoi costau ychwanegol, i roi hysbyseb fer am y swydd wag yn y papurau newydd lleol gyda dolen i wefan y Cyngor am y fersiwn lawn.

PENDERFYNWYD :-

- Cymeradwyo'r hysbyseb ar gyfer swydd wag Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod;

- Rhoi'r hysbyseb ar wefan y Cyngor, y dudalen Facebook a Twitter, ynghyd ag hysbyseb fer yn unig (yn y lle cyntaf) yn y ddau bapur newydd lleol;
- Cymeradwyo'r cais a'r cyngor yn Atodiad 2;
- Cynnal y cyfarfod nesaf i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld ar 17 Tachwedd, 2017 am 2.00 p.m., yn Ystafell Bwyllgor 1.